# Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-02-11**

## CA514: Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn esemptio lleoedd tân penodedig rhag gwaharddiad cyffredinol adran 20 Deddf Aer Glân 1993 ar ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Rhaid i'r lleoedd tân esempt losgi tanwydd heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae'r Gorchymyn yn dirymu ac yn disodli gyda diwygiadau Orchymyn cyfatebol 2009.

### Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt canlynol i'w adrodd dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1.Mae Atodlen y fersiwn Saesneg yn mynnu bod stop mecanyddol yn cael ei ffitio i rai lleoedd tân esempt "pan werthir hwy i mewn i ardaloedd rheoli mwg" ("when sold into smoke control areas").

Mae Atodlen y fersiwn Gymraeg yn mynnu bod stop mecanyddol yn cael ei ffitio i'r un lleoedd tân "pan werthir hwy mewn ardaloedd rheoli mwg".

Mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg felly yn wahanol a chyfyd y pwynt adrodd ar sail:

Drafftio diffygiol, Rheol Sefydlog 15.2(vi); ac

Anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, Rheol Sefydlog 15.2(vii).

**Craffu ar Rinweddau**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Ionawr 2011**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod anghysondebau rhwng y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg (Rheol Sefydlog 15.2 (vii)) ac o'r herwydd yn codi pwynt ynglyn â drafftio diffygiol o dan Reol Sefydlog 15.2 (vi).

Mae'r fersiwn Saesneg yn gywir ac yn ddiamwys ond nid yw'r fersiwn Gymraeg yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y fersiwn Saesneg. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn addas  cywiro hyn drwy ddefnyddio nodyn cywiro wrth gyhoeddi'r Gorchymyn.